Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Araith y Frenhines 2010
Mehefin 2010

Yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol ar 6 Mai 2010, cafwyd araith y Frenhines ar 25 Mai 2010. Caiff 23 o Fesurau Seneddol eu cyflwyno gan Lywodraeth Glymblaid newydd y DU.

Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn trafod araith y Frenhines yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 16 Mehefin 2010. Bydd y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn bresennol.

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r cyfan o'r 60 Aelod Cynulliad a'u staff.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu ysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosib i roi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylw ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallech eu hanfon at y cyfeiriad post neu ebost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur drwy safle'r Cynulliad Cenedlaethol ar:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:
Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ebost: MembersLibrary@wales.gsi.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 10 / 1658

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Araith y Frenhines 2010
Mehefin 2010

Alys Thomas

Rhif dogfen: 10 / 058

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Araith y Frenhines 2010

Papur Ymchwil

16 Mehefin 2010

Yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol ar 6 Mai 2010, cafwyd Araith y Frenhines ar 25 Mai 2010. Caiff 23 o Fesurau Seneddol eu cyflwyno gan Lywodraeth Glymblaid newydd y DU.

Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn trafod araith y Frenhines yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 16 Mehefin 2010. Bydd y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn bresennol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn rhan o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rydym yn darparu cymorth ymchwil diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth y Cynulliad, ac i bob un o'r 60 Aelod Cynulliad a'u staff.

Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain i'r cyfeiriadau isod.

Gellir dod o hyd i fersiwn electronig o'r papur hwn ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Gellir cael copïau caled pellach o'r papur hwn gan:
Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: MembersLibrary@wales.gsi.gov.uk

Rhif ymholiad: 10/1658

A Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Araith y Frenhines 2010

Papur Ymchwil

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

17 Mehefin 2010

Rhif y papur: (Pennwyd gan dîm y Llyfrgell)

© National Assembly for Wales Commission 2010
© Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010

Cynnwys

1. Cyflwyniad 1

2. Mesurau Seneddol sy'n gymwys i Gymru 2

2.1. Mesurau Seneddol mewn meysydd datganoledig 2
Mesur Seneddol ynghylch Datganoli a Lleoleiddio (Decentralisation and Localism Bill) 2
Mesur Seneddol ynghylch Addysg a Phlant (Education and Children's Bill) 4
Mesur Seneddol ynghylch Iechyd (Health Bill) 4
Mesur Seneddol ynghylch Diogelu Ynni a'r Economi Werdd (Energy Security and Green Economy Bill) 5

2.2. Materion a gedwir yn ôl 5
Mesur Seneddol ynghylch y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (Office of Budget Responsibility Bill) 5
Mesur Seneddol ynghylch Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (The National Insurance Contributions Bill) 6
Mesur Seneddol ynghylch Rheoleiddio Gwasanaethau Ariannol (Financial Services Regulation Bill) 7
Mesur Seneddol ynghylch Taliadau Equitable Life (Equitable Life Payments Scheme Bill) 7
Mesur Seneddol ynghylch Rheoleiddio Economaidd ar gyfer Meysydd Awyr (Airport Economic Regulation Bill) 7
Mesur Seneddol ynghylch Gwasanaethau Post (Postal Services Bill) 7
Mesur Seneddol ynghylch Pensiynau a Chynilion (Pensions and Savings Bill) 8
Mesur Seneddol ynghylch Diwygio Seneddol (Parliamentary Reform Bill) 8
Mesur Seneddol ynghylch Rhyddid (Diddymiad Mawr) (Freedom (Great Repeal) Bill) 9
Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol (Police Reform and Social Responsibility Bill) 10
Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus (Public Bodies Bill) 11
Mesur Seneddol ynghylch Diwygio Lles (Welfare Reform Bill) 11
Mesur Seneddol ynghylch Dogfennau Adnabod (Identity Documents Bill) 11
Mesur Seneddol ynghylch Clo Refferendwm Cymunedau Ewropeaidd (Diwygio) (European Communities (Amendment) Referendum Lock Bill) 13
Mesur Seneddol ynghylch y Lluoedd Arfog (Armed Forces Bill) 13
Mesur Seneddol ynghylch Rhewi Asedau Terfysgwyr (Terrorist-Asset Freezing Bill) 13

2.3. Mesurau Seneddol sydd ag effaith gyfyngedig neu nad ydynt yn gymwys i Gymru o gwbl 14
Mesur Seneddol ynghylch Academïau (Academies Bill) 14
Mesur Seneddol ynghylch Llywodraeth Leol (Local Government Bill) 14
Mesur Seneddol ynghylch yr Alban (Scotland Bill) 14

2.4. Mesurau Seneddol drafft 14

Araith y Frenhines 2010

1. Cyflwyniad

Yn dilyn Etholiad Cyffredinol 6 Mai 2010, ffurfiwyd Llywodraeth Glymblaid newydd y Du rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Cafwyd Araith y Frenhines[1], yn nodi cynlluniau deddfwriaethol y Llywodraeth newydd ar 25 Mai 2010 a chyhoeddwyd 23 o Fesurau Seneddol. **Mae tair ar ddeg o'r rhain yn gymwys i Gymru, ond yn bennaf, nid ydynt yn ymwneud â'r meysydd datganoledig**. Nododd Swyddfa Cymru fod pedwar ohonynt yn ymwneud â meysydd sydd wedi'u datganoli'n llawn neu'n rhannol a bod:

> A limited number of provisions in each Bill may apply to Wales, and the extent of each Bill's application to Wales will be the subject of further work on scope and content[2].

Ceir tri Mesur Seneddol arall nad ydynt yn berthnasol iawn, os o gwbl, i Gymru.

Mae adran 32 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu i Weinidogion y DU fod yn bresennol yn nhrafodion y Cynulliad ond nid i bleidleisio ac mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi y "caiff y Llywydd alw ar yr Ysgrifennydd Gwladol i siarad mewn unrhyw ddadl y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cymryd rhan ynddi."[3] Mae'n arfer i Ysgrifennydd Gwladol Cymru annerch Cyfarfod Llawn y Cynulliad ynghylch goblygiadau Araith y Frenhines i Gymru. Bydd y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 17 Mehefin 2010 at y diben hwn.

Cyhoeddodd Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru, ddatganiad ar Araith y Frenhines:

> Tra'n bo ni'n amlwg yn siomedig nad oedd Araith y Frenhines yn cyfeirio at weithredu canfyddiadau Comisiwn Holtham, mae rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn parhau yn ffynhonnell bwysig o ddeddfwriaeth i Gymru. Rydym ni'n gobeithio datblygu perthynas gweithio adeiladol gyda llywodraeth newydd y DU a, ble'n addas, gweithio gyda nhw i symud ein blaenoriaethau ymlaen – gan gynnwys ymateb positif i'n cais am bwerau deddfwriaethol pellach yn hwyrach ym mis Hydref."[4]

Dim ond dau Fesur Seneddol a gyhoeddwyd hyd yn hyn, sef y Mesur Seneddol ynghylch Dogfennau Adnabod (*Identity Documents Bill)* a'r Mesur Seneddol ynghylch Academïau (*Academies Bill)* nad yw'n berthnasol i Gymru. Felly, nid oes gwybodaeth fanwl ar gael am y rhan fwyaf o'r Mesurau Seneddol ac ni wyddys beth fydd y darpariaethau Cymreig, os o gwbl, neu a fyddant yn rhoi unrhyw bwerau pellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud Mesurau.

---

[1] Gwybodaeth am gynnwys Mesurau Seneddol unigol a gymerwyd o wefan Number 10

[2] Dadleuon Tŷ'r Cyffredin, 26 Mai 2010, Cols 9WS-10WS

[3] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 8.3

2. Mesurau Seneddol sy'n gymwys i Gymru

2.1. Mesurau Seneddol mewn meysydd datganoledig

Mewn Datganiad gan Weinidog i Dŷ'r Cyffredin, nododd Ysgrifennydd Gwladol Cymru y pedwar Mesur Seneddol isod fel rhai sy'n ymwneud â materion datganoledig. Nododd:

> A limited number of provisions in each Bill may apply to Wales, and the extent of each Bill's application to Wales will be the subject of further work on scope and content.[5]

Mesur Seneddol ynghylch Datganoli a Lleoleiddio (Decentralisation and Localism Bill)

Diben y Mesur Seneddol yw datganoli rhagor o bwerau i gynghorau a chymdogaethau a rhoi rheolaeth i gymunedau lleol dros benderfyniadau yn ymwneud â chynllunio a thai.

Mae prif elfennau'r Mesur Seneddol yn cynnwys:

- Diddymu Strategaethau Gofodol Rhanbarthol.
- Rhoi'r pŵer i wneud penderfyniadau ynghylch tai a chynllunio yn ôl i gynghorau lleol.
- Diddymu'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith a chael system effeithlon ac sy'n atebol yn ddemocrataidd yn ei lle sy'n darparu proses llwybr carlam ar gyfer prosiectau seilwaith mawr.
- Pwerau newydd i helpu i achub cyfleusterau a gwasanaethau lleol y mae bygwth eu cau, a rhoi'r hawl i gymunedau wneud cais i gymryd gwasanaethau lleol y wladwriaeth drosodd
- Diddymu trefn y Bwrdd Safonau.
- Rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i gynghorau.
- Ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi teitlau swyddi pob aelod o staff ar-lein a hefyd gyflogau a threuliau uwch swyddogion.
- Rhoi'r pŵer i breswylwyr gychwyn refferenda lleol ar unrhyw fater lleol a'r pŵer i roi feto ar gynnydd gormodol yn y dreth gyngor.
- Rhoi mwy o reolaeth ariannol i lywodraeth leol a grwpiau cymunedol.
- Creu Partneriaethau Menter Lleol (yn lle Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol) – cyrff busnes-awdurdodau lleol ar y cyd a gyflwynir gan awdurdodau lleol i hyrwyddo datblygiadau economaidd lleol.

---

[4] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg, y Prif Weinidog yn ymateb i araith y Frenhines, 25 Mai 2010
[5] Dadleuon Tŷ'r Cyffredin, 26 Mai 2010, Cols 9WS-10WS.

- Gwneud cynlluniau i ddarparu etifeddiaeth barhaol i'r Gemau Olympaidd.
- Diddymu Pecynnau Gwella Cartrefi yn llwyr.
- Creu ymddiriedolaethau newydd a fyddai'n ei gwneud yn haws i gymunedau ddarparu cartrefi i bobl leol.
- Adolygu'r Cyfrif Refeniw Tai.

Mae rhai o'r darpariaethau hyn yn gymwys i Loegr yn unig fel y strategaethau gofodol rhanbarthol. Fodd bynnag mae pwerau awdurdodau lleol Cymru o ran cynllunio, cymhwysedd cyffredinol a chyllid llywodraeth leol wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth ar gyfer Cymru a Lloegr, ond mae gan Weinidogion Cymru bwerau eang o dan y ddeddfwriaeth honno. **Ar hyn o bryd, nid yw'n glir a fydd y mesur Seneddol hwn yn effeithio ar bwerau cynllunio Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol Cymru**.

Mae'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith, sydd ar fin cael ei ddiddymu, yn cynnwys Cymru a Lloegr. Sefydlwyd yr IPC gan *Ddeddf Cynllunio 2008* a dechreuodd weithredu o fis Mawrth 2010. Yng Nghymru, mae'n gyfrifol am geisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio ar gyfer prosiectau ynni mawr a rhai prosiectau seilwaith mawr eraill fel leiniau peipiau a chyfleusterau harbwr newydd.

Mae'r ymrwymiad i greu ymddiriedolaethau newydd a fyddai'n ei gwneud yn haws i gymunedau ddarparu cartrefi i bobl leol yn cyfeirio at Ymddiriedolaethau Tai Lleol, sef cyrff newydd dan arweiniad y gymuned a fydd â phwerau cynllunio i ddatblygu cartrefi, ar yr amod bod cefnogaeth gref gan y gymuned. Nid yw'n glir sut y mae'r rhain yn gysylltiedig ag Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a gafodd eu treialu gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn Lloegr a Llywodraeth Cymru yng Nghymru. Byddai'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft ynghylch Tai a Llywodraeth Leol wedi caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu ar Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol i'r graddau y mae a wnelo hwy â thai fforddiadwy. Mae cytundeb y glymblaid yn gwneud ymrwymiad i ddwyn y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol hwn ymlaen gan na chafodd ei gymeradwyo cyn yr etholiad cyffredinol. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i helpu i ddatblygu Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol yng Nghymru.

O ran yr ymrwymiad i adolygu'r Cyfrif Refeniw Tai, cynhelir adolygiad ar hyn o bryd o'r ffordd y caiff tai awdurdodau lleol eu hariannu yng Nghymru. Nid oedd ariannu tai awdurdodau lleol yn rhan o'r Gorchymyn Cynhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Tai a Llywodraeth Leol, er y cafwyd cais gan CLlLC y dylid ei gynnwys fel bod modd gweithredu unrhyw newidiadau a fyddai'n digwydd yn sgil yr adolygiad presennol.

Trafodwyd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol pan gyfarfu Prif Weinidog Cymru â'r Prif Weinidog newydd ar 17 Mai 2010.[6]

Mesur Seneddol ynghylch Addysg a Phlant (Education and Children's Bill)

Mae prif elfennau'r Mesur Seneddol yn cynnwys:

- Rhoi mwy o ryddid i ysgolion o ran penaethiaid ac athrawon.
- Diwygio Ofsted a fframweithiau atebolrwydd eraill er mwyn sicrhau bod penaethiaid yn atebol yn briodol am y nodau addysgol craidd, sef cyrhaeddiad a chau'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd.
- Cyflwyno cwricwlwm mwy main sy'n rhoi mwy o le i athrawon benderfynu sut i addysgu.
- Cyflwyno prawf darllen i blant 6 oed er mwyn sicrhau bod plant ifanc yn dysgu ac er mwyn canfod problemau yn gynnar.
- Rhoi'r pŵer i athrawon a phenaethiaid i wella ymddygiad a mynd i'r afael â bwlio.
- Cyflwyno 'premiwm disgyblion' fel bod rhagor o arian yn cael ei roi i'r disgyblion tlotaf.

Byddai mwyafrif y darpariaethau y mae'n debygol y cânt eu cynnwys yn y Mesur Seneddol hwn yn gymwys i Loegr yn unig. **Mae'n bosibl y bydd rhai o'r darpariaethau yn gymwys i Gymru a Lloegr yn dibynnu ar y manylion terfynol.**

Mesur Seneddol ynghylch Iechyd (Health Bill)

Mae prif elfennau'r Mesur Seneddol yn cynnwys:

- Sefydlu Bwrdd GIG annibynnol i ddyrannu adnoddau a rhoi canllawiau comisiynu, ac er mwyn caniatáu i feddygon teulu gomisiynu gwasanaethau ar ran eu cleifion.
- Gwella effeithlonrwydd a chanlyniadau drwy atgyfnerthu rôl y Comisiwn Ansawdd Gofal a datblygu Monitor i reoleiddiwr economaidd sy'n goruchwylio agweddau ar fynediad a chystadleuaeth yn y GIG.
- Datblygu cynigion er mwyn cwtogi'n sylweddol ar nifer y cwangos iechyd, gan helpu i gwtogi traean ar gostau gweinyddol y GIG.

Mae mwyafrif y materion y mae'r Mesur Seneddol hwn yn mynd i'r afael â hwy yn faterion datganoledig ac **yn gyffredinol maent yn gymwys i Loegr yn unig.**

---

[6] *Llywodraeth Cymru, Sesiwn friffio Mai 18 gyda Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru a Ieuan Wyn Jones, Dirprwy Brif Weinidog Cymru* .

Mesur Seneddol ynghylch Diogelu Ynni a'r Economi Werdd (Energy Security and Green Economy Bill)

Diben y Mesur Seneddol hwn yw sicrhau newid sylweddol o ran y mesurau effeithlonrwydd ynni a ddarperir i gartrefi a busnesau a rhoi fframwaith ar waith i sicrhau dyfodol lle ceir cyflenwadau ynni diogel, carbon isel a chystadleuaeth deg yn y marchnadoedd ynni.

Mae prif elfennau'r Mesur Seneddol yn cynnwys:

- Gweithredu 'bargen werdd' er mwyn sicrhau effeithlonrwydd ynni i gartrefi a busnesau – gan ddarparu fframwaith sy'n cynnwys cymhelliannau posibl i gyflenwyr ynni a chartrefi a fydd yn trawsffurfio'r ffordd y caiff ynni effeithlon ei ddarparu yn y DU drwy alluogi dull 'talu wrth arbed';
- Rheoleiddio'r allyriadau carbon o orsafoedd pŵer sy'n rhedeg ar lo;
- Diwygio marchnadoedd ynni er mwyn diogelu cyflenwad a sicrhau cystadleuaeth deg;
- Rhoi fframwaith ar waith i helpu i ddatblygu 'smart grid' a fydd yn chwyldroi sut y caiff y cyflenwad a'r galw am drydan ei reoli;
- Ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau ynni roi rhagor o wybodaeth am filiau ynni er mwyn rhoi'r pŵer i ddefnyddwyr a sicrhau mynediad teg at gyflenwadau ynni;
- Sicrhau bod seilwaith Môr y Gogledd ar gael i bob cwmni er mwyn hwyluso'r modd o ymelwa ar gronfeydd olew a nwy llai a mwy anodd; a
- Chreu Banc Buddsoddi Gwyrdd i gefnogi buddsoddiad mewn prosiectau carbon isel i drawsffurfio'r economi.

Byddai mwyafrif y darpariaethau y mae'n debygol y cânt eu cynnwys yn y Mesur Seneddol hwn yn cynnwys Cymru, Lloegr a'r Alban. **Mae'n bosibl bod rhai agweddau datganoledig i rai o'r darpariaethau, yn dibynnu ar y manylion terfynol**.

2.2. Materion a gedwir yn ôl

Mesur Seneddol ynghylch y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (Office of Budget Responsibility Bill)

Diben y Mesur Seneddol yw:

- Sefydlu Swyddfa Cyfrifoldebau Cyllidebol.
- Sefydlu Pwyllgor Cyfrifoldebau Cyllidebol o dri pherson, gyda Syr Alan Budd yn gadeirydd arno, a fydd yn arwain y Swyddfa. Bydd yn gweithredu dros dro ar

gyfer y Gyllideb gyntaf, gydag ysgrifenyddiaeth y gwasanaeth sifil yn ei gynorthwyo.

- Bydd y corff dros dro yn cyhoeddi rhagolygon cyn y Gyllideb frys a hefyd yn asesu pa mor gynaliadwy yw cyllid y cyhoedd a mantolen y sector cyhoeddus yn y tymor hwy.
- Byddai Mesur Seneddol yn sail statudol i'r Swyddfa Cyfrifoldebau Cyllidebol.
- Prif nod y Mesur Seneddol yw nad y Canghellor fydd yn pennu'r rhagolygon; byddai'r Canghellor yn derbyn y rhagolygon gan y Swyddfa ar gyfer yr adroddiad ar y Gyllideb a'r adroddiad rhag-gyllidebol.

Mesur Seneddol ynghylch Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (The National Insurance Contributions Bill)

Diben y Mesur Seneddol hwn yw cynyddu cyfraddau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol o fis Ebrill 2011 ac o bosibl, gwneud newidiadau pellach sy'n hyrwyddo menter a thegwch.

Prif nod y Mesur Seneddol yw codi £9 biliwn a fydd yn ariannu cynnydd yn lwfans personol y dreth incwm a chynnydd yn y trothwy Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a byddai gweithwyr sy'n ennill o dan £20,000 sydd ar y brif gyfradd yn talu llai o Gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Prif elfennau'r Mesur Seneddol yw'r cynnydd yng nghyfraddau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol o 6 Ebrill 2011:

- Byddai prif gyfradd Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 a 4 yn cynyddu 1 y cant i 12 y cant a 9 y cant yn y drefn honno;

- Byddai cyfradd cyflogwyr Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 yn cynyddu 1 y cant i 13.5 y cant a bydd hefyd yn gymwys i Gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A ac 1B; a

- Byddai cyfradd ychwanegol Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 a 4 yn cynyddu 1 y cant i 2 y cant.

Mae Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar draws y DU gyfan, felly **byddai'r Mesur Seneddol yn ymestyn i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon** (er y bydd angen darpariaeth ar wahân yn y Mesur Seneddol ar gyfer Gogledd Iwerddon). Mae gwefan Number 10 yn nodi y **caiff y gweinyddiaethau datganoledig eu hysbysu ynghylch y cynigion**.

Mesur Seneddol ynghylch Rheoleiddio Gwasanaethau Ariannol (Financial Services Regulation Bill)

Diben y Mesur Seneddol yw sicrhau bod Banc Lloegr yn rheoli ac yn arolygu rheoleiddio micro-ddarbodus.

Mesur Seneddol ynghylch Taliadau Equitable Life (Equitable Life Payments Scheme Bill)

Diben y Mesur Seneddol yw rhoi awdurdod statudol i Drysorlys Ei Mawrhydi fynd i gostau wrth wneud taliadau i bobl sydd â pholisi gydag Equitable Life.

Mesur Seneddol ynghylch Rheoleiddio Economaidd ar gyfer Meysydd Awyr (Airport Economic Regulation Bill)

Un o'r cyhoeddiadau cyntaf a wnaed gan Lywodraeth newydd y DU oedd rhoi terfyn ar y cynlluniau i gael trydedd rhedfa yn Heathrow a diystyru unrhyw gynlluniau i ymestyn Gatwick ymhellach. Mae gwefan Number 10 yn nodi:

> Having ruled out new runways in the South East, we will engage with all stakeholders in the sector to develop a new vision for a competitive aviation industry, supporting UK economic growth and designed within the constraint of the existing runway infrastructure. This Bill will reform the framework for the economic regulation of airports to benefit passengers and drive investment in airport facilities. .

Mae prif elfennau'r Mesur Seneddol yn ymwneud â disodli'r system bresennol o bennu terfynau pris mewn meysydd awyr sy'n destun rheoleiddio economaidd gyda fframwaith mwy hyblyg sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau sydd o bwys i deithwyr. Ystyrir materion eraill y gellir eu cynnwys yn y Mesur Seneddol hwn.

Mae rheoleiddio economaidd ar gyfer meysydd awyr yn fater a gedwir yn ôl o ran y pŵer i ddeddfu.

Mesur Seneddol ynghylch Gwasanaethau Post (Postal Services Bill)

Byddai'r Mesur Seneddol yn ceisio mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol a hirsefydlog y mae'r Post Brenhinol yn eu hwynebu. Byddai'r Mesur Seneddol yn galluogi chwistrelliad o gyfalaf preifat, ynghyd â mesurau eraill, i helpu'r Post Brenhinol a sicrhau bod y gwasanaeth post yn gyffredinol yn cael ei ddarparu.

Mae prif elfennau'r Mesur Seneddol yn cynnwys:

- Galluogi cyfranddaliadau'r Post Brenhinol i gael eu gwerthu i drydydd partïon a allai godi'r ecwiti i ailfuddsoddi yn y busnes.
- Cydnabod rôl gymdeithasol ac economaidd bwysig swyddfeydd post mewn cymunedau ledled y DU. Felly, bydd Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn parhau i fod o dan berchenogaeth gyhoeddus.

- Mesurau i ddatrys y problemau sy'n bodoli ynghylch y diffyg ym mhensiwn y Post Brenhinol.
- Newidiadau posibl i'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer gwasanaethau post.
- Edrych yn fanwl ar opsiynau o ran cyfranogiad gweithwyr yng ngwaith y Post Brenhinol, i alluogi rheolwyr a'r gweithlu i weithio gyda'i gilydd i ateb heriau sylweddol y Post Brenhinol a galluogi pawb i rannu yn ei lwyddiant yn y dyfodol.

Mae'r Mesur Seneddol yn gymwys i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mesur Seneddol ynghylch Pensiynau a Chynilion (Pensions and Savings Bill)

O dan ddeddfwriaeth bresennol, mae oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar fin cynyddu i 66 rhwng 2024 a 2026 gyda dau gynnydd pellach i ddilyn bob deng mlynedd. Bydd yr adolygiad yn ailedrych ar yr amserlen hon ac yn gwneud argymhellion.

Prif nod y Mesur Seneddol fyddai helpu i sicrhau bod Pensiwn y Wladwriaeth yn fforddiadwy yn y dyfodol, gan gynnwys adfer y cysylltiad rhwng enillion a Phensiwn y Wladwriaeth sylfaenol.

Byddai'r Mesur Seneddol yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Mesur Seneddol ynghylch Diwygio Seneddol (Parliamentary Reform Bill)

Nod y Mesur Seneddol hwn yw sicrhau bod gan y cyhoedd fwy o lais dros y modd y cânt eu cynrychioli yn y Senedd, gwella enw da'r Senedd a rhoi mwy o reolaeth i'r senedd dros y Llywodraeth.

- Darparu ar gyfer **refferendwm ar ddewis rhwng y system y Cyntaf i'r Felin a'r Ail Bleidlais fel y system ar gyfer ethol Tŷ'r Cyffredin**, a newid y system etholiadol ar gyfer Tŷ'r Cyffredin i'r Ail Bleidlais os bydd canlyniad y refferendwm yn cefnogi hyn.
- Darparu ar gyfer lleihau nifer y seddi yn Nhŷ'r Cyffredin a chreu etholaethau sy'n fwy cyfartal o ran maint, a hynny drwy newid y rheolau ar gyfer adolygiadau o ffiniau i alluogi'r Comisiynau Ffiniau i lunio etholaethau newydd yn ystod cyfnod y Senedd newydd.
- Darparu ar gyfer tymor sefydlog yn hytrach nag uchafswm tymor o bum mlynedd ar gyfer seneddau a darparu mai'r dyddiad ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol nesaf yw 7 Mai 2015.
- Darparu y gall Prif Weinidog geisio diddymu Senedd yn gynharach ond dim ond os yw 55 y cant o aelodau Tŷ'r Cyffredin wedi pleidleisio o blaid hyn.

- Darparu, lle y bernir bod AS wedi cymryd rhan mewn camwedd difrifol, fod etholwyr yn gallu deisebu ar gyfer galw'r AS yn ôl. Os bydd mwy na 10 y cant o etholwyr yn llofnodi'r ddeiseb, yna cynhelir isetholiad ar gyfer y sedd.

Bydd unrhyw ddeddfwriaeth yn gymwys i'r Deyrnas Unedig. Mae'r holl gynigion wedi'u cadw yn ôl ym mhob un o'r tri setliad datganoli.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer lleihau nifer y seddi yn Nhŷ'r Cyffredin a chreu etholaethau sy'n fwy cyfartal o ran maint wedi arwain at sylwadau y bydd maint y Cynulliad yn cael ei leihau hefyd. Mae papur diweddar gan y Gymdeithas Diwygio Etholiadol yn nodi:

> As the law stands, a reduction in the number of Welsh constituencies and MPs in Westminster would lead to the reduction in the number of Assembly Members in Cardiff Bay. This is particularly so if this would also involve resolving Wales's current over-representation at Westminster, which would bring the number of constituencies down to 30. This would mean an Assembly of 45 members.[7]

Mae adran 2(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi:

> The Assembly constituencies are the parliamentary constituencies in Wales (as specified in the Parliamentary Constituencies and Assembly Electoral Regions (Wales) Order 2006 (S.I. 2006/1041)).

Byddai'n ofynnol i ddeddfwriaeth sylfaenol yn San Steffan ddadgyplu etholaethau San Steffan a'r Cynulliad a chaniatáu i'w hetholaethau gael eu hadolygu. Mae gan hyn gynsail yn yr Alban.

Cafwyd lleihad yn nifer yr Aelodau Seneddol yn Llywodraeth ddiwethaf y DU heb leihau nifer Aelodau Senedd yr Alban. Gwnaed hyn drwy gadw'r hen etholaethau at ddibenion Senedd yr Alban. Er mwyn osgoi lleihau nifer yr Aelodau Senedd yr Alban, pasiodd Llywodraeth y DU *Ddeddf Senedd yr Alban (Etholaethau) 2004*. Roedd y ddeddfwriaeth hon yn addasu Deddf yr Alban 1998 drwy ddileu'r cysylltiad hanfodol rhwng etholaethau Senedd yr Alban a'r rheini ar gyfer Senedd y DU. Golyga hyn fod gan Senedd yr Alban 73 o etholaethau o hyd a bod eu ffiniau wedi parhau'n ddigyfnewid.

Pan gyfarfu Prif Weinidog Cymru â'r Prif Weinidog newydd ar 17 Mai 2010, un o'r pynciau a drafodwyd oedd y goblygiadau i Gymru pe bai nifer yr Aelodau Seneddol yn cael ei chwtogi.[8]

Mesur Seneddol ynghylch Rhyddid (Diddymiad Mawr) (Freedom (Great Repeal) Bill)

Byddai'r Mesur Seneddol ynghylch Rhyddid neu Ddiddymu Mawr yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch yr hyn y mae rhai pobl wedi dadlau yw'r doreth o

[7] Cymdeithas Newid Etholiadol, '*Torri a Chysoni' a Llywodraethiant Cymru*, Mai 2010.
[8] Op.cit; Llywodraeth Cymru, Sesiwn Friffio, 18 Mai 2010.

ddeddfwriaeth cyfiawnder troseddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hefyd yn rhoi'r cyfle i gryfhau atebolrwydd cyrff sy'n cael arian cyhoeddus o ran y gwersi a ddysgwyd hyd yn hyn ers i'r *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth* gael ei rhoi ar waith.

Caiff union gynnwys y Mesur Seneddol ei gyhoeddi maes o law a gallai gynnwys amrywiaeth o bolisïau, gan gynnwys:

- Ehangu cwmpas y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i roi mwy o dryloywder.
- Diogelu rhyddid hanesyddol drwy amddiffyn treial gan reithgor.
- Diwygio cyfreithiau enllib i ddiogelu'r rhyddid i lefaru.
- Diddymu tramgwyddau troseddol dianghenraid.
- Mabwysiadu'r diogelwch a roddir gan fodel yr Alban ar gyfer y gronfa ddata DNA.
- Adfer yr hawliau i brotestiadau di-drais.
- Dulliau diogelu yn erbyn camddefnyddio deddfwriaeth wrthderfysgaeth.
- Rheoleiddio teledu cylch cyfyng ymhellach.
- Dod â'r arfer o storio cofnodion y rhyngrwyd a negeseuon e-bost i ben os nad oes rheswm da dros wneud hynny.

Bydd mesurau troseddol fel arfer ond yn gymwys i **Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.**

Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol (Police Reform and Social Responsibility Bill)

Diben y Mesur Seneddol yw sicrhau bod yr heddlu yn fwy atebol i bobl leol, creu Heddlu Ffin penodol a phennu mesurau i fynd i'r afael â thrais ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Mae prif elfennau'r Mesur Seneddol yn cynnwys:

- Unigolion a gaiff eu hethol yn uniongyrchol i ddwyn yr heddlu i gyfrif. Byddent yn sicrhau bod gweithgarwch lleol yr heddlu yn diwallu anghenion y gymuned leol, yn helpu i ddatblygu hyder yn y system ac yn dwyn y gymuned a'r heddlu ynghyd.
- Diwygio cyfreithiau iechyd a diogelwch nad ydynt yn atal dulliau synnwyr cyffredin o blismona.
- Heddlu Ffin penodol, fel rhan o Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol â ffocws newydd, i wella diogelwch gwladol, gwella rheolaeth fewnfudo a chyflwyno mesurau llym o ran masnachu mewn pobl, arfau a chyffuriau.

- Cryfhau cysylltiadau er mwyn mynd i'r afael â throseddau difrifol a mwy o gydweithio rhwng heddluoedd i sicrhau gwell gwerth am arian.
- Addasu'r *Ddeddf Trwyddedu* i roi pwerau cryfach i awdurdodau lleol a'r heddlu i dynnu trwyddedau oddi ar, neu wrthod rhoi trwyddedau i, eiddo sy'n peri problemau. Gwahardd gwerthu alcohol am bris llai na'r pris cost. Hefyd, caniatáu i gynghorau lleol godi ffi uwch am drwyddedau gyda'r nos i dalu am blismona ychwanegol, gan roi'r pŵer iddynt gau siopau neu dafarndai sy'n parhau i werthu i blant a dyblu uchafswm y ffi ar gyfer gwerthu i blant i £20,000.

Gyda Heddlu Ffin yn eithriad, mae'r darpariaethau'n gymwys i Gymru a Lloegr.

Mesur Seneddol ynghylch Cyrff Cyhoeddus (Public Bodies Bill)

Mae prif elfennau'r Mesur Seneddol yn cynnwys :

- Sicrhau mwy o atebolrwydd, tryloywder ac effeithlonrwydd yn y Llywodraeth drwy leihau nifer y cyrff cyhoeddus a chost cyrff cyhoeddus (cwangos).
- Rhoi'r pŵer i Weinidogion ddileu, gyfuno neu drosglwyddo cwangos yn ôl i Adrannau. Ar 31 Mawrth 2009, roedd yna 766 o gyrff cyhoeddus anadrannol. Maent yn gwario dros £46 biliwn y flwyddyn ac maent yn cyflogi dros 110,000 o bobl.
- Adolygu swyddogaethau pob corff cyhoeddus bob tair blynedd, sy'n groes i'r arfer bresennol o wneud hynny bob 5 mlynedd. Bydd yr adolygiad yn cynnwys prawf: A yw'r swyddogaeth yn un dechnegol; a oes angen iddi fod yn ddiduedd yn wleidyddol; ac a oes angen pennu ffeithiau mewn modd tryloyw?'

Mae'r Mesur Seneddol yn gymwys i Gymru a Lloegr check re. Welsh Ministers.

Mesur Seneddol ynghylch Diwygio Lles (Welfare Reform Bill)

Diben y Mesur Seneddol yw symleiddio'r system fudd-daliadau i wella'r cymhellion i weithio.

Bydd unrhyw newidiadau i fudd-daliadau yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban. Mae darpariaeth neu fudd-daliadau wedi'i ddatganoli yng Ngogledd Iwerddon a bydd angen deddfwriaeth gyfatebol.

Mesur Seneddol ynghylch Dogfennau Adnabod (Identity Documents Bill)

Bydd y Mesur Seneddol yn cael gwared ar gardiau adnabod pan fydd y Ddeddf yn cychwyn a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddinistrio'r holl wybodaeth bersonol a gasglwyd gan ddeiliaid cardiau er mwyn canslo'r Gofrestr Hunaniaeth Genedlaethol.

Mae prif elfennau'r Mesur Seneddol yn cynnwys:

- Canslo pob cerdyn adnabod o fewn un mis i gael Cydsyniad Brenhinol.
- Dileu'r gofyniad statudol i gyflwyno cardiau adnabod ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol.
- Canslo'r Gofrestr Hunaniaeth Genedlaethol.
- Dinistrio'r holl ddata a gedwir ar y Gofrestr o fewn un mis i gael Cydsyniad Brenhinol.
- Cau Swyddfa'r Comisiynydd Hunaniaeth.
- Ailddeddfu rhai darpariaethau hanfodol *Deddf Cardiau Adnabod 2006* gan gynnwys rhai tramgwyddau troseddol (meddu ar neu ddefnyddio dogfennau adnabod ffug) a ddefnyddir yn gyffredinol ar gyfer dogfennau adnabod a chardiau adnabod eraill.
- Dim ad-daliadau i ddeiliaid cardiau presennol.

Cafodd *Deddf Cardiau Adnabod 2006* Gydsyniad Brenhinol ar 30 Mawrth 2006. Mae'n caniatáu i gynllun cardiau adnabod gael ei sefydlu yn y Deyrnas Unedig. Mae'n darparu ar gyfer sefydlu Cofrestr Hunaniaeth Genedlaethol i gadw manylion adnabod craidd holl breswylwyr y DU sydd wedi cofrestru ynghyd â ffotograff ohonynt a chofnod o'u hôl bys ac i gerdyn gael ei gyflwyno iddynt. Gall gwybodaeth a gedwir ar y Gofrestr gael ei defnyddio gan gyflogwr, banc neu gymdeithas adeiladu. Byddai angen caniatâd deiliad y cerdyn cyn bod IPS yn gallu cynnal prawf gwirio o hunaniaeth. Gellir rhyddhau gwybodaeth o'r Gofrestr heb ganiatâd yr unigolyn er mwyn i'r heddlu, gwasanaethau diogelwch ac adrannau perthnasol eraill y Llywodraeth wirio hunaniaeth, a hynny ar yr amod bod modd ateb meini prawf caeth hanfodol. Crëwyd hefyd dramgwyddau troseddol newydd gan Ddeddf 2006 mewn perthynas â chamddefnyddio cardiau adnabod a mathau eraill o hunaniaeth fel pasbortau a thrwyddedau gyrru; a materion eraill sy'n ymwneud â thwyll hunaniaeth. Mae'r Mesur Seneddol hwn yn cynnig ailddeddfu ynghylch y troseddau hyn.

Nid yw *Deddf Cardiau Adnabod 2006* yn darparu pwerau datganoledig ar gyfer cyhoeddi Cardiau Adnabod ac nid yw **rhoi'r gorau i'r cynllun yn destun ystyriaeth gan y gweinyddiaethau datganoledig**.

Fodd bynnag, mae'r Mesur Seneddol yn cynnig ailddeddfu ynghylch tramgwyddau troseddol sy'n ymwneud â meddu ar ddogfennau adnabod ffug fel pasbortau a thrwyddedau gyrru; a meddu ar offer i greu dogfennau ffug fel pasbortau a thrwyddedau gyrru. Mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â chydweithwyr yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon ar ailddeddfu'r troseddau hyn.

Mesur Seneddol ynghylch Clo Refferendwm Cymunedau Ewropeaidd (Diwygio) (European Communities (Amendment) Referendum Lock Bill)

Mae prif elfennau'r Mesur Seneddol yn cynnwys:

- Diwygio Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 i sicrhau y byddai unrhyw Gytuniad arfaethedig y DU yn y dyfodol, a chymalau 'ratchet' allweddol sy'n trosglwyddo cymwyseddau neu feysydd pŵer o'r DU i'r UE, yn ddarostyngedig i refferendwm.
- Diwygio Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 i sicrhau bod angen Deddf Seneddol cyn bod modd defnyddio 'cymal ratchet' (passerelle).
- Cadarnhau Protocol i ddiwygio Cytuniadau'r UE ar fesurau i addasu maint dirprwyaethau'r DU a'r 11 Aelod-wladwriaeth arall yn Senedd Ewrop yn ystod tymor presennol Seneddol Senedd Ewrop, yn hytrach nag aros am etholiadau nesaf Senedd Ewrop yn 2014.
- Bydd y Llywodraeth yn edrych yn fanwl ar yr achos dros Fesur Seneddol ynghylch Sofraniaeth y Deyrnas Unedig, a hynny er mwyn dangos bod awdurdod yn y pen draw yn parhau yn y wlad hon.

Mae'r Mesur Seneddol yn gymwys i'r Deyrnas Unedig gyfan.

Mesur Seneddol ynghylch y Lluoedd Arfog (Armed Forces Bill)

Bydd y Mesur Seneddol ynghylch y Lluoedd Arfog yn parhau ar waith fel y ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r lluoedd arfog ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer materion eraill yn ymwneud ag amddiffyn.

Mae prif elfennau'r Mesur Seneddol yn cynnwys:

- Adnewyddu'r ddeddfwriaeth.
- Newidiadau i bwerau'r Llysoedd Milwrol.
- Darpariaethau'n ymwneud â'r polisi personél.
- Materion yn ymwneud â heddlu'r lluoedd, gan gynnwys darpariaethau ar gyfer cryfhau annibyniaeth ymchwiliadau heddlu'r lluoedd.
- Nifer o ddarpariaethau o ran materion eraill yn ymwneud ag amddiffyn.

Mae'r Mesur Seneddol yn gymwys i'r Deyrnas Unedig gyfan.

Mesur Seneddol ynghylch Rhewi Asedau Terfysgwyr (Terrorist-Asset Freezing Bill)

Byddai'r Mesur Seneddol yn pennu'r fframwaith ar gyfer gweithredu'r gwaith o rewi asedau yn y DU mewn ffordd effeithiol, a hynny yn ôl gofyniad y Cenhedloedd

Unedig, a byddai'n rhoi'r drefn ar sylfaen ddeddfwriaethol gadarn, gan sicrhau bod asedau terfysgwyr yn parhau i gael eu rhewi.

Byddai'r Mesur Seneddol yn pennu'r prawf cyfreithiol ar gyfer rhewi asedau, y broses ar gyfer gwneud penderfyniadau, cwmpas y gwaharddiadau, darpariaethau o ran eithriadau, tramgwyddau troseddol a dulliau apelio.

Mae'r Mesur Seneddol yn gymwys i'r Deyrnas Unedig gyfan.

2.3. Mesurau Seneddol sydd ag effaith gyfyngedig neu nad ydynt yn gymwys i Gymru o gwbl

Mesur Seneddol ynghylch Academïau (Academies Bill)

Cafwyd ail ddarlleniad y Mesur Seneddol hwn ar 7 Mehefin 2010 yn Nhŷ'r Arglwyddi. Bydd yn galluogi mwy o ysgolion yn Lloegr i ddod yn academïau. Bydd yr academïau hyn yn cael y gyfran o'r arian y byddai eu hawdurdod lleol fel arfer yn ei chael ar eu rhan yn uniongyrchol.

Mesur Seneddol ynghylch Llywodraeth Leol (Local Government Bill)

Mae'r Mesur Seneddol hwn yn rhoi terfyn ar y gwaith o greu awdurdodau lleol unedol yn rhannau o Loegr.

Mesur Seneddol ynghylch yr Alban (Scotland Bill)

Byddai'r Mesur Seneddol hwn yn gweithredu argymhellion Adroddiad Terfynol y Comisiwn ar Ddatganoli'r Alban (Comisiwn Calman). Disgwylir iddo:

- Gryfhau'r setliad datganoli yn yr Alban.
- Cynyddu atebolrwydd ariannol Senedd yr Alban.
- Adnewyddu'r rhaniad o ran cyfrifoldeb polisi rhwng Senedd y DU a Senedd yr Alban.

Gwella'r berthynas rhwng Llywodraeth y DU a Gweinidogion yr Alban.

2.4. Mesurau Seneddol drafft

Mesur Seneddol ynghylch Braint Seneddol (Parliamentary Privilege Bill).